# Datganiad Gwariant Grant Datblygu Disgyblion Ysgol Glan Morfa

Diben y Grant Datblygu Disgyblion yw gwella canlyniadau a llwyddiannau i ddysgwyr sydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. (PYD).

**Diffiniad estynedig o ddefnyddio'r GDD -** "Dylid defnyddio'r GDD i gefnogi anghenion yr holl blant sydd yn neu sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y ddwy flynedd flaenorol, neu blant sy'n derbyn gofal. Bwriedir i'r GDD roi cymorth i ddysgwyr sydd o dan anfantais i oresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal y rheiny o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu potensial yn llawn."

Fel ysgol mae'r GDD yn cael ei ddefnyddio i:

| |
|---|
| Datblygu dulliau llythrennedd a rhifedd cynnar. |
| Gefnogi pob dysgwr cymwys, gan gynnwys disgyblion MATh |
| Olrhain disgyblion, adnabod tangyflawniad a defnyddio strategaethau ymyrraeth cadarn; |
| Sicrhau bod staff cymorth wedi'u hyfforddi i'r radd uchaf a'u bod yn deall yn glir y ddarpariaeth maent yn arwain arni yn yr adnodd cynllunio grant; |
| Ddatblygu systemau a phrosesau effeithiol i olrhain cynnydd disgyblion |

Yn 2019-20 rhoddwyd i Ysgol Glan Morfa ddyraniad Grant Datblygu disgyblion o £29,675. Mae Ysgol Glan Morfa yn defnyddio eu Cynllun Datblygu Ysgol fel dull o gynllunio eu defnydd o'r GDD ac mae cynllun unigol mewn lle sydd wedi'i gytuno a'i fonitro gan Awdurdod Lleol Conwy a GwE.